Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Craig Yr Wylfa
# Heol Francis
# Y Borth
# Ceredigion
# SY24 5NJ

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Craig Yr Wylfa

Lleolir Ysgol Craig yr Wylfa ym mhentref Y Borth, Ceredigion. Mae’r ysgol yn gwasanaethu’r pentref ei hun a’r ardal wledig sydd o amgylch. Mae 40 disgybl rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr. Fe’u rhennir yn 3 dosbarth oed cymysg yn y bore a 2 ddosbarth oed cymysg yn y prynhawn. Mae patrwm parhaus o fewnlifiad ac all-lifiad disgyblion yn yr ysgol.

Ar gyfartaledd dros dreigl 3 blynedd, tua 19% o’r disgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn debyg i’r ganran genedlaethol, sy’n 18%. Mae ychydig iawn o ddisgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae’r ysgol wedi adnabod 50% o’i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae hyn yn sylweddol uwch na’r ganran genedlaethol, sy’n 21%.

Penodwyd y pennaeth i’w swydd ym mis Mawrth 2011 ac mae ganddo gyfrifoldeb dros ysgol arall yn yr ardal. Mae’r ysgol yn rhan o gynllun anffurfiol o ffederaleiddio gydag Ysgol Gymunedol Talybont. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ebrill 2014.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Craig yr Wylfa yn gymuned ofalgar a chynhwysol, lle roddir blaenoriaeth uchel gan staff ac arweinwyr ar ddatblygu lles disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymddwyn yn dda, yn dangos brwdfrydedd tuag at eu dysgu ac yn cymryd eu rolau a chyfrifoldebau o ddifri. Yn gyffredinol, mae'r athrawon yn cynllunio cwricwlwm diddorol sy'n ennyn diddordeb y mwyafrif o ddisgyblion yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio'n ddigon bwriadus ar gyfer datblygu medrau Cymraeg y disgyblion. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn yn eu medrau rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a Saesneg, ond nid ydynt yn gwneud cynnydd digon cryf yn eu medrau Cymraeg, yn enwedig eu medrau llafar.

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir sy'n seiliedig ar ofal, cymorth a lles y disgyblion a'r staff. Mae gweithdrefnau hunanwerthuso'r ysgol yn galluogi arweinwyr i adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd ar gyfer gwelliant yn addas. Er hyn, nid yw'r gweithdrefnau bob tro'n ddigon penodol i arwain at greu gwelliannau yn ddigon cyflym.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

A1 Gwella medrau llafar Cymraeg disgyblion

A2 Cryfhau gweithdrefnau cynllunio ar gyfer gwelliant i wneud gwelliannau'n fwy effeithiol ac amserol

A3 Codi disgwyliadau athrawon er mwyn darparu her briodol i ddisgyblion gyflawni hyd eithaf eu gallu

A4 Gwella medrau dysgu annibynnol disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwella**

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn datblygu eu medrau rhifedd, Saesneg a TGCh o'u mannau cychwyn. Fodd bynnag, nid ydynt yn gwneud digon o gynnydd yn eu medrau Cymraeg, gan gynnwys hwyrddyfodiaid i'r iaith. Mae disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd priodol tuag at eu targedau. Nid yw disgyblion mwy abl bob tro'n gwneud cynnydd digon effeithiol mewn perthynas â'u gallu.

Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n dda ar gyfarwyddiadau. Yn gyffredinol, maent yn datblygu dealltwriaeth addas o'r iaith Gymraeg. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn dechrau defnyddio patrymau iaith syml yn gywir o fewn gweithdrefnau dyddiol a thasgau penodol fel dramateiddio darnau o stori Branwen. Fodd bynnag, wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, nid ydynt yn adeiladu ar eu medrau llafar Cymraeg yn ddigon bwriadus o fewn gwersi nac yn eu hamser hamdden. Maent yn tueddu troi i'r Saesneg yn hytrach na dyfalbarhau â sgyrsiau yn y Gymraeg. Nid oes ganddynt afael digon cadarn ar gystrawennau Cymraeg ac mae diffyg geirfa yn llesteirio eu gallu i drafod eu gwaith yn hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau llafar Saesneg llawer o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau darllen Cymraeg yn addas. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r mwyafrif yn darllen testunau cyfarwydd yn lled hyderus ac yn trafod cynnwys eu storïau'n gymwys. Yng nghyfnod allweddol 2, nid yw medrau darllen Cymraeg disgyblion wedi'u datblygu cystal â'u medrau darllen Saesneg. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau darllen Saesneg yn gymedrol. Yn gyffredinol, mae'r mwyafrif yn darllen â rhuglder a chyda mynegiant priodol. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r mwyafrif yn dechrau defnyddio eu huwch fedrau darllen yn addas yn y ddwy iaith i ragfynegi cynnwys eu storïau gan esbonio eu rhesymeg yn glir. Mae ychydig iawn o ddisgyblion mwy abl yn trafod arddulliau gwahanol awduron yn effeithiol, er enghraifft wrth esbonio sut mae'r awdur yn ysgrifennu mewn ffordd swrrealaidd. Fodd bynnag, nid oes gan y mwyafrif o ddisgyblion ar draws yr ysgol ymwybyddiaeth ffonolegol ddigon cadarn i'w helpu i adeiladu geiriau anghyfarwydd.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu'u medrau ysgrifennu'n gymwys wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Er bod disgyblion yn dechrau ffurfio llythrennau yn addas yn gynnar ar ôl dechrau'r ysgol, nid yw eu medrau cyn-ysgrifennu bob tro wedi'u datblygu'n ddigon cryf. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r mwyafrif yn ysgrifennu'n ddeallus ac yn defnyddio ansoddeiriau a chymariaethau'n llwyddiannus i liwio'u gwaith, er enghraifft wrth ysgrifennu portread o Branwen. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae'r mwyafrif yn gwneud cynnydd cadarn yn eu hysgrifennu mewn ystod eang o ffurfiau ysgrifennu, er enghraifft wrth ysgrifennu adroddiad ffeithiol am athletwyr enwog Cymru. Mae disgyblion mwy abl yn dechrau creu effaith yn eu hysgrifennu'n ddoeth, fel cynnwys cwestiynau rhethregol wrth ysgrifennu dyddiadur o safbwynt anifail y môr. Er hyn, yn gyffredinol, mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn rhy ddibynnol ar sgaffaldau a matiau geirfa sy'n rhwystro eu gallu i ysgrifennu'n greadigol.

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cymedrol yn eu medrau rhifedd. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn adnabod a threfnu rhifau at 100 o'r lleiaf i'r mwyaf yn gywir. Mae'r rhan fwyaf yn adnabod darnau arian yn gywir, gyda'r lleiafrif yn adio rhifau oddi fewn £1 gyda hyder. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cymhwyso eu medrau yn ddigon cyson wrth weithio o fewn ardaloedd dysgu. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer yn gwneud cynnydd pwrpasol yn eu medrau rhif, siâp, mesur a thrin data. Maent yn dechrau cymhwyso'r medrau hyn yn gymwys wrth weithio ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion yn cyfrifo faint o elw a wnaethpwyd ar bob stondin yn y Ffair Nadolig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol yn eu medrau TGCh. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer yn mewngofnodi i'w cyfrif yn annibynnol. Gyda chymorth, maent yn mewnbynnu lluniau i raglen fideo yn hyderus gan recordio eu llais i esbonio'r camau coginio wrth greu bwyd Gwyddelig. Yn ystod cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau yn hyderus i greu posteri i hysbysu pobl am bwysigrwydd ailgylchu. Maent yn creu cronfa goeden fuddiol i ddosbarthu anifeiliaid y môr yn ôl eu nodweddion corfforol.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae ymddygiad bron pob disgybl, o fewn y gwersi a thu allan, yn dda. Maent yn dangos cwrteisi at ymwelwyr, staff a'u cyfoedion ac maent yn dangos balchder wrth drafod eu hysgol. Mae'r disgyblion hŷn yn naturiol ofalgar o'r disgyblion ieuengaf, ac yn llwyddo i ddatrys unrhyw achosion o wrthdaro eu hunain yn llwyddiannus. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, yn gwybod at bwy i droi pe bai angen cymorth neu gynhaliaeth arnynt. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar-lein.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o waith elusennau ac yn egluro gyda manylder y math o gynhaliaeth sydd yn cael ei chynnig ganddynt. Mae'r disgyblion yn cyfrannu'n dda at godi arian ar gyfer nifer o elusennau sy'n bwysig iddynt, er enghraifft drwy werthu cacennau i godi arian ar gyfer elusen cancr. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill o fewn eu cymuned a'r byd ehangach.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall sut i fyw'n iach. Maent yn gwneud dewisiadau doeth mewn perthynas â bwyd a gweithgareddau corfforol. Er enghraifft, mae llawer yn manteisio ar y cyfleoedd i fynychu clwb coginio. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd cael diet cytbwys yn dda. Mae llysgenhadon efydd yn arwain ar gynyddu cydweithrediad disgyblion drwy ddarparu clybiau chwaraeon a thrwy archebu adnoddau pwrpasol ar gyfer amser egwyl. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad a chydweithrediad disgyblion yn ogystal â'u medrau corfforol.

Mae gan bron pob un o'r disgyblion lais cryf ym mywyd yr ysgol. Mae'r disgyblion yn cymryd eu rolau ar bwyllgorau amrywiol o ddifri ac yn gweld gwerth i'w trafodaethau a'u penderfyniadau. Mae aelodau'r Cyngor Ysgol yn ymgymryd â rôl allweddol, er enghraifft wrth hybu hawliau plant ymysg y disgyblion eraill. Mae hyn yn sicrhau bod gan ddisgyblion ymwybyddiaeth gref o'u hawliau ac yn trafod y rhain yn hyderus. Mae gwaith y 'Dewiniaid Digidol' ar ddatblygu medrau TGCh disgyblion yn elfen gref o'r ysgol. Maent yn gofalu am offer TGCh ac yn rhaeadru arferion effeithiol fel

defnydd o ap animeiddio newydd yn llwyddiannus. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar hyder a medrau disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n synhwyrol gyda phartner ac mewn grwpiau. Mae bron pob disgybl yn cadw ar dasg yn dda yn ystod gwersi ac yn canolbwyntio ar eu gweithgareddau am gyfnodau estynedig. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u cryfderau a'u targedau ac yn esbonio beth sydd rhaid iddynt ei wneud a pham i wella'u gwaith. Maent yn cyfeirio at feini prawf llwyddiant yn llwyddiannus wrth gwblhau eu gwaith ac mae ychydig o ddisgyblion yn dechrau gosod rhai i'w hunain. Fodd bynnag, yn gyffredinol, maent yn rhy ddibynnol ar arweiniad oedolion i gwblhau eu gwaith. Mae hyn yn llesteirio eu gallu i weithio'n annibynnol yn ddigon effeithiol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella**

Ar draws yr ysgol, mae'r holl staff yn creu perthynas waith gynhaliol gyda'r disgyblion. Maent yn rheoli ymddygiad yn fedrus ac yn delio ag unrhyw ymddygiad annerbyniol mewn modd cadarn a sensitif. Mae hyn yn creu awyrgylch dysgu diogel.

At ei gilydd, mae gan athrawon wybodaeth bynciol berthnasol. Maent yn rhannu nodau ac amcanion gwersi ynghyd â meini prawf llwyddiant clir gyda'r disgyblion. Maent yn sicrhau rhediad addas i'r gwersi ac, yn gyffredinol, yn teilwra gwaith yn addas i fodloni anghenion dysgu unigol y mwyafrif o ddisgyblion. Fodd bynnag, nid ydynt bob tro'n cynllunio gweithgareddau sy'n herio disgyblion i gyflawni ar y lefel y gallent ei chyflawni. Nid oes ganddynt bob tro ddisgwyliadau na dyheadau digon uchel ar gyfer y disgyblion, yn enwedig o ran datblygu eu medrau llafaredd Cymraeg. Ar draws yr ysgol, caiff gweithgareddau eu gor-arwain gan oedolion. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau annibynnol yn ddigon cadarn.

Yn gyffredinol, mae cwricwlwm yr ysgol yn darparu ehangder addas o brofiadau dysgu ysgogol i'r disgyblion, sy'n ennyn eu diddordeb yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio'u medrau llafar a TGCh i greu animeiddiad ar y thema anifeiliaid y môr. Fodd bynnag, mae tueddiad i'r athrawon ddefnyddio'r un symbyliad iaith a mathemateg gyda'r un disgyblion bob blwyddyn. Nid yw hyn yn cynnig digon o ysgogiad na dilyniant i ddisgyblion yn eu dysgu, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r cynllunio ar gyfer y cyfnod sylfaen yn sicrhau cydbwysedd effeithiol rhwng gweithgareddau tu fewn ac yn yr awyr agored. Er enghraifft, ceir gweithgareddau gwerthfawr i ddatblygu medrau meddwl a datrys problemau yn yr awyr agored wrth i ddisgyblion weithio gydag amrywiaeth o adnoddau i adeiladu pont rhwng Cymru ac Iwerddon yn yr ardal byd bach. Mae athrawon yn cynllunio nifer o weithgareddau addas i ddatblygu medrau disgyblion ar draws yr ardaloedd. Fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau yn yr ardaloedd bob amser yn cynnig digon o her i ddisgyblion gymhwyso a datblygu eu medrau.

At ei gilydd, mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd dilys ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau TGCh y disgyblion ar draws yr ysgol a medrau rhifedd disgyblion yng nghyfnod allweddol 2. Yn gyffredinol, mae athrawon yn

cynllunio'n addas i fagu medrau darllen ac ysgrifennu disgyblion yn y ddwy iaith, ond nid oes digon o ffocws ar ddatblygu ymwybyddiaeth ffonolegol disgyblion neu eu gallu i ysgrifennu'n rhydd yn annibynnol. Mae athrawon yn fodelau iaith effeithiol o fewn gwersi ac yn cyflwyno patrymau iaith a geirfa newydd yn addas. Fodd bynnag, nid ydynt yn cywiro iaith disgyblion yn ddigon cyson nac yn cynllunio'n ddigon bwriadus i ddatblygu eu medrau llafar yn gynyddol dros gyfnod.

Mae'r ysgol wedi cymryd rhan mewn prosiect creadigol gwerthfawr i ddatblygu ystod eang o fedrau disgyblion ar draws yr ysgol. Maent wedi gweithio'n llwyddiannus gydag artistiaid allanol i ddatblygu hyder y disgyblion. Mae hyn wedi cyfrannu'n gadarnhaol at wella medrau disgyblion wrth gymryd rhan mewn dramâu, cyfansoddi caneuon a chreu animeiddiadau. Roedd y disgyblion yn falch iawn o ddarlledu eu ffilmiau o'r gwaith hwn yn y sinema leol. Mae hyn yn meithrin parch a balchder ymysg y disgyblion tuag at eu gwaith yn effeithiol.

Cyfoethogir y cwricwlwm yn fuddiol gyda defnydd helaeth o'r ardal leol ac ystod eang o ymweliadau dysgu, er enghraifft ymweliad â'r orsaf bad achub ym Mhorth. Yn ogystal, gwneir defnydd crefftus o chwedlau a phynciau cyfoes fel astudio bywydau pobl yn y byd chwaraeon i ddatblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o hanes a diwylliant Cymru.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi canolbwyntio ar gynnig adborth defnyddiol i ddisgyblion i wella'u gwaith. O ganlyniad, mae athrawon yn rhoi adborth a chynhaliaeth amserol i ddisgyblion yn ystod gwersi gan holi'n briodol i annog y disgyblion i feddwl. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ymateb i waith ysgrifenedig drwy strategaethau fel 'pinc perffaith' a 'gwyrdd i'w wella'. Mae hyn wedi cryfhau dealltwriaeth disgyblion o sut i wella eu gwaith ac yn arwain at welliannau pwrpasol yn eu gwaith ysgrifenedig.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chroesawgar gyda threfniadau effeithiol ar gyfer darparu gofal i'r disgyblion. Mae pwyslais cryf ar annog y disgyblion i ofalu am ei gilydd ac ar hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da a chwrteisi. Mae'r ysgol yn sicrhau cyfleoedd cyfartal i'r holl ddisgyblion ac mae trefniadau defnyddiol i gefnogi disgyblion emosiynol bregus. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion drafod eu teimladau a'u hemosiynau. Mae hyn yn eu galluogi i fesur cyflwr emosiynol disgyblion er mwyn ymdrin â phroblemau yn gynnar fel bod y disgyblion yn barod i ddysgu yn y gwersi.

Mae gan yr ysgol systemau cadarn ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion ar lefel unigolion. Mae athrawon yn casglu gwybodaeth ddefnyddiol am gynnydd disgyblion ar eu taith trwy'r ysgol ac yn dadansoddi'r wybodaeth yn briodol. Maent yn adnabod disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn gyflym ac yn rhoi camau buddiol yn eu lle i'w cefnogi. Er enghraifft, mae athrawon a chynorthwywyr dysgu yn darparu amrywiaeth o strategaethau ymyrraeth llwyddiannus i dargedu plant sydd yn tangyflawni yn eu medrau darllen neu rifedd neu i wella'u lles emosiynol. Mae'r ysgol yn darparu'n effeithiol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae athrawon yn llunio cynlluniau cynhwysfawr ar eu cyfer ac yn cynnwys disgyblion a rhieni fel rhan annatod o'r broses. Maent yn cydweithio'n effeithiol gydag asiantaethau eraill lle bo'n briodol, er enghraifft er mwyn gweithio ar raglenni datblygu iaith mewn cydgysylltiad â therapydd iaith.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth gynhyrchiol gyda'r rhieni. Mae'r ysgol yn hyrwyddo lles y plant yn dda trwy rannu gwybodaeth berthnasol gyda rhieni, er enghraifft wrth roi gwybodaeth iddynt ynglŷn â defnydd addas ac anaddas o'r rhyngrwyd.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae athrawon yn darparu cyfleoedd rheolaidd i'r disgyblion gadw'n heini ac i'w haddysgu sut i ofalu am yr amgylchedd. Enghraifft effeithiol o hyn yw'r 'Dydd Mercher Olwyn' lle maent yn annog disgyblion i ddod â'u beiciau a sgwteri i'r ysgol yn hytrach na defnyddio ceir.

Mae athrawon yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion gymryd rhan yn eu cymuned. Trefnir ymweliadau cyson i'r gymuned leol sy'n ychwanegu'n gadarn at ddealltwriaeth y disgyblion o'u hardal leol a'u diwylliant. Yn ddiweddar iawn, maent wedi trefnu bod disgyblion yn gallu ennill tocynnau Cymraeg yn y siop leol, y sinema a'r sw am ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. Mae hyn yn dechrau helpu disgyblion i sylweddoli bod yr iaith yn fyw yn eu cymuned ac yn dechrau eu hannog i ddefnyddio'r iaith yn fwy rheolaidd.

Hyrwyddir agweddau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn gynhwysfawr. Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fyfyrio a chyd-addoli, gan feithrin moesoldeb a dealltwriaeth o eraill mewn ffordd sensitif a pharchus. Mae'r clybiau allgyrsiol fel y clwb coginio a'r clwb cŵl yn effeithiol wrth ddatblygu medrau corfforol a chymdeithasol y disgyblion. Darperir nifer o weithgareddau gwerthfawr i'r disgyblion gynrychioli'r ysgol, er enghraifft drwy'r gala nofio, Eisteddfod yr Urdd a'r ŵyl tennis.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

### Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir sy'n seiliedig ar ofal, cymorth a lles y disgyblion a'r staff. Maent yn rhannu'r weledigaeth yn llwyddiannus i greu awyrgylch lle mae pawb yn cael eu trin gyda pharch ac urddas. Mae'r pennaeth yn rhannu ei amser gydag ysgol arall o fewn partneriaeth anffurfiol, a chaiff ei gefnogi'n effeithiol gan y pennaeth cynorthwyol. Gyda'i gilydd, maent yn creu ethos gofalgar a chynhwysol ar gyfer disgyblion a staff. Fodd bynnag, nid oes ganddynt bob amser ddisgwyliadau digon uchel, yn enwedig mewn perthynas â datblygu agweddau ar addysgu nac wrth ddatblygu medrau llafar Cymraeg disgyblion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau hunanwerthuso cadarn sydd wedi eu seilio ar dystiolaeth bendant. Mae arweinwyr yn casglu barnau rhieni a disgyblion yn rheolaidd ac yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr iddynt gyfrannu syniadau. Trwy arsylwi ar wersi a chynnal teithiau dysgu, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth addas o gryfderau'r ysgol a meysydd i'w gwella. Yn yr achosion gorau, maent yn mynd i'r afael â'r meysydd hyn gan sicrhau bod yr holl staff yn mabwysiadu dulliau penodol er mwyn gwella safonau. Enghraifft gadarnhaol o hyn yw'r llwyddiant diweddar i gysoni a chryfhau dulliau'r athrawon o ymateb i waith disgyblion. Fodd bynnag, mae effaith gweithdrefnau cynllunio ar gyfer gwelliant yn anghyson. Nid yw'r prosesau cynllunio ar gyfer gwella bob tro'n ddigon miniog neu'n cynnwys camau gweithredu digon pendant i alluogi'r staff i ddeall yr hyn sydd angen ei wneud i wella'r ddarpariaeth a

chodi safonau disgyblion. O ganlyniad, mae agweddau pwysig sydd angen eu gwella, fel datblygu medrau llafar Cymraeg disgyblion, wedi bod yn faterion parhaus ar y cynllun datblygu ysgol am gyfnod rhy hir.

Mae'r staff yn cael cyfleoedd priodol i ymchwilio i dechnegau newydd a rhannu arfer effeithiol yn fewnol. Esiampl effeithiol o hyn yw'r ffordd y mae'r cydlynydd TGCh wedi hyfforddi Dewiniaid Digidol i ddosrannu gwybodaeth newydd trwy'r ysgol yn llwyddiannus. Mae hyn wedi arwain at ddisgyblion yn gwella eu medrau TGCh a chreadigol, er enghraifft wrth ddefnyddio ap animeiddio. Gwneir defnydd effeithiol o hyfforddiant proffesiynol i ddatblygu staff, er enghraifft i uwch-sgilio cynorthwywyr dysgu er mwyn gwella'r gefnogaeth sydd ar gael i ddisgyblion gydag anghenion addysgol arbennig. Mae gan yr ysgol weithdrefnau rheoli perfformiad addas sy'n rhoi ffocws priodol ar ddatblygu staff yn broffesiynol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn defnyddio'r gweithdrefnau hyn yn ddigon grymus i ddwyn athrawon i gyfrif am safonau disgyblion.

Mae corff llywodraethol yr ysgol yn herio a chefnogi yn addas. Maent yn cael cyfleoedd priodol i ymweld â'r ysgol a chyfrannu i'r broses hunanwerthuso yn anffurfiol. O ganlyniad, maent yn gynyddol ymwybodol o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Maent yn cefnogi arweinwyr i reoli cyllideb yr ysgol yn effeithiol, gan gynnwys gwneud penderfyniadau anodd er mwyn sicrhau cynaliadwyedd yr ysgol, er enghraifft trwy adolygu'r strwythur staffio.

Mae defnydd bwriadus o grantiau, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, yn galluogi'r ysgol i gynnig cefnogaeth ychwanegol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a lles y disgyblion. Mae gwariant ar adnoddau dysgu yn cyd-fynd â blaenoriaethau'r ysgol ac yn cyfrannu'n addas at godi safonau. Er enghraifft, mae buddsoddiad mewn adnoddau addas ar gyfer y cyfnod sylfaen yn sicrhau bod athrawon yn cynllunio'n fwy pwrpasol ar gyfer gweithgareddau yn yr ardal allanol.

Mae'r ysgol wedi'i staffio'n briodol a defnyddir staff yn addas i addysgu'r cwricwlwm, ar y cyfan. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn sicrhau bod gan y staff ddealltwriaeth ddigon cadarn o bryd i ymyrryd yn y dysgu a phryd i gefnogi disgyblion i ddatblygu'u medrau yn annibynnol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd pwrpasol o'i hamgylchedd dan do ac awyr agored. Yn gyffredinol, gwneir defnydd effeithiol o adnoddau dysgu i gyfoethogi'r cwricwlwm.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau’n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â’r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae’r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/01/2020